| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23 Mai 2023 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. Jason McLellan, Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd / Tony Ward, Cyfarwyddwr Yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Nicola Kneale, Cyd- bennaeth dros dro'r Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Nicola Kneale |
| **Teitl:** | Llywodraethiant arian y Gronfa Ffyniant Bro |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu a gyfer goruchwylio darpariaeth prosiectau a ariennir drwy'r Gronfa Ffyniant Bro

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Fel corff darparu arweiniol prosiect Cronfa Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd, mae'n rhaid i Gyngor Sir Ddinbych fod â bwrdd darparu wedi'i gyfansoddi, gyda'r Gronfa Ffyniant Bro yn rhan o'i Gylch Gorchwyl. Mae'r adroddiad rhoi disgrifiad i'r Cabinet o'r trefniadau cadw trosolwg a sicrwydd sydd wedi'u sefydlu, a sut y maent yn integreiddio â threfniadau llywodraethu'r Cyngor.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen a deall y trefniadau sicrwydd a ddisgrifir ac yn fodlon bod y trefniadau hynny wedi'u hintegreiddio'n ddigonol i fusnes y Cyngor. Yn benodol, efallai y bydd gan y Cabinet farn ar yr isod:

- Trosolwg Strategol o'r Dull Darparu, tud 6
- Aelodaeth y Bwrdd Rhaglen, gan nodi fod yr Arweinydd wedi'i gynnwys ar y

bwrdd, tud 7

- Adrodd i'r Cabinet, Craffu ac ati, tud 8 ac 11
- Perthynas â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, tud 10
- Perthnasoedd â gwleidyddion ardaloedd penodol a rhanddeiliaid eraill, tud 11.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Adran 8.3 o'r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a Chyngor Sir Ddinbych ynghylch prosiect Cronfa Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd yn datgan:

'Bydd y Cyngor yn darparu ar gais dystiolaeth o fwrdd darpariaeth Cronfa Ffyniant Bro wedi'i gyfansoddi, neu fod bwrdd darparu a oedd eisoes yn bodoli wedi mabwysiadu'n ffurfiol o fewn ei Gylch Corchwyl lywodraethiant y Gronfa Ffyniant Bro. Dylai integreiddiad â threfniadau llywodraethu llawn y Cyngor fod yn amlwg.'

Er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw datblygwyd y ddogfen lywodraethu a welid yn Atodiad A.

4.2. Mae'r ddogfen yn disgrifio pwrpas y Bwrdd Ffyniant Bro a fydd yn cael ei greu; y fframweithiau a'r ymdriniaethau a fydd yn cael eu defnyddio wrth iddo ymgymryd â'i waith; aelodaeth y bwrdd ac ati, ac mae hefyd yn dweud sut y bydd y Bwrdd yn rhyngweithio â chyrff allweddol eraill o fewn y Cyngor (Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet, Craffu ac ati) a hefyd y tu allan i'r Cyngor (h.y. rheolaeth rhanddeiliaid gyda phartion â budd megis Aelodau Seneddol, Cynghorau Tref a darparwyr prosiectau trydydd parti).

4.3. Dylid nodi fod y ddogfen lywodraethu hon hefyd yn cynnwys gwaith y Gronfa Ffyniant Bro nad yw'n gysylltiedig â Gorllewin Clwyd, h.y. mae ei gylch gorchwyl yn ehangach na dim ond prosiect Gorllewin Clwyd. Y rheswm am hyn yw ein bod hefyd yn darparu yn erbyn rhaglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU mewn partneriaeth â Wrecsam ar gyfer ardal De Clwyd, a hefyd mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'r gwaith hwn yn gofyn am drosolwg ar y cyd er mwyn monitro cynnydd, gweithio drwy unrhyw broblemau ac ati. Roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn flaenorol drwy Grŵp Cyllid ôl Brexit llai ffurfiol o swyddogion CSDd. Bydd y grŵp newydd hwn yn awr yn

gwneud gwaith y grŵp hwnnw. Bydd yr aelodau yr un fath yn fras, gydag ychwanegiad yr Arweinydd.

4.4. Pe bai rhagor o arian yn cael ei ddyfarnu o dan y gyfres Cronfeydd Ffyniant Bro, y bwriad yw y byddai trosolwg o'u darpariaeth nhw hefyd yn dod o dan y Bwrdd hwn

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â llywodraethu darpariaeth o dan y Gronfa Ffyniant Bro. Bydd ymagwedd arfer da yn cyfrannu'n anuniongyrchol at thema 9: Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda. Mae'r prosiectau wedi'u halinio mor agos â phosib â'r Cynllun Corfforaethol (o ystyried paramedrau Llywodraeth y DU y mae CSDd yn gweithio â nhw).

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd costau'n cael eu cynnwys o fewn costau'r timau presennol. Dim cost ychwanegol

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae a wnelo'r adroddiad a threfniadau llywodraethu ac nid yw Asesiad o Effaith ar Les yn angenrheidiol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r trefniadau hyn eisoes wedi'u trafod gyda'r Grŵp Cyllid Ôl-Brexit, y TGC a'r Arweinydd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes goblygiad ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn, gydag unrhyw gostau a nodwyd yn 6.1 yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau cyfredol. Mae'r adroddiad yn nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cadw trosolwg o ddarpariaeth prosiectau a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd cymeradwyaeth ffurfiol penderfyniadau gwariant yn parhau o

fewn dirprwyaethau a phrosesau cyfredol, gan gynnwys y gofyniad bod yr holl gynigion gwariant cyfalaf yn cael eu hystyried gan y Grŵp Craffu Cyfalaf.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â gwneud y penderfyniad.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol dan a.24 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021